**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 23 Tachwedd 2017 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

Y Cyng. Dewi Owen, Anne Lloyd Jones, (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Bob Tyrrell (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Brian Bates (Bad Achub), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Dyfi), Al Crisp (Outward Bound).

**Sylwedyddion:** Mr Neil Storkey (Clerc/Sylwedydd ar ran Cyngor Cymuned Aberdyfi)
Y Cyng. Rob Triggs (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw)

Hefyd yn bresennol:

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| William Stockford | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Glynda O'Brien | - | Swyddog Cefnogi Aelodau |
| Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Ioan Ceredig Thomas (Aelod Cabinet Economi), Y Cyng. Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Mr Nick Dawson (Outward Bound), Mr Llyr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned)

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.**

3. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 28 Chwefror 2017.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

4.1 Materion yn codi o'r cofnodion – Eitem 4 (d) (i) Wal y Cei

Nododd y Cadeirydd siom na oedd yn bosibl i swyddog Ymgynghoriaeth Gwynedd fod yn bresennol yn y cyfarfod i roi diweddariad peirianyddol ar ddatblygiad gwaith i wal y cei. Roedd y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod yn ddiweddar gyda swyddogion Uned Ymgynghoriaeth Gwynedd ac fe adroddodd ar ei ddealltwriaeth o'r sefyllfa diweddaraf sef bod bras amcan gyfrif y cynlluniau diwygiedig o ail-ddatblygu wal y cei ar gost o £2.2m. Ar hyn o bryd, gellir cael oddeutu 75% o'r costau drwy grantiau ac arian Ewrop ond bod diffyg o 25% sydd yn

cyfateb i £500,000. Yn y cyfarfodydd diwethaf fe drafodwyd y posibilrwydd o ddenu trydydd parti i gyfrannu at y costau ac fe fyddai modd trafod hyn ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn. Awgrymwyd bod holl Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried y gofyn am gefnogaeth ariannol bosibl a bod y wybodaeth hyn yn cael ei amlygu I aelodau o'r holl gymdeithasau a gynrychiolir ar y Pwyllgor Harbwr. Deallwyd yr amlygwyd pryder gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynglyn â'r bwriad i ymestyn y strwythur presennol allan oddeutu medr i'r môr ac y byddai'n effeithio ar gynefinoedd, ond bellach deallir eu bod yn hapus gyda'r cynlluniau diwygiedig. Deallir ymhellach y bydd y cais yn cael ei gyflwyno a'i ystyried gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, sef yr Awdurdod Cynllunio yn Aberdyfi yn fuan.

Ychwanegodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n trefnu bod copiau o'r cynlluniau ar gael i'w gweld yn swyddfa'r Harbwr Feistr ac y byddai'n cylchredeg nodiadau o'r broses sydd wedi digwydd yn yr wythnosau nesaf. Nodwyd y byddai'n heriol i geisio canfod £500,000 gyda'r bwriad i edrych ar bob ffynhonell ariannol posibl.

O safbwynt amserlen, hyderir y gellir dechrau ar y gwaith ym mis Ebrill 2019.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- O safbwynt denu cyfraniad lleol, teimlwyd bod £500,000 yn heriol ac a fyddai modd i'r Cyngor ystyried ffynhonellau o gyfeiriad ffrydiau twristiaeth
- Bod 2018 yn cael ei ddynodi yn Flwyddyn y Môr a phwy a wyr efallai y byddai adnoddau ariannol ar gael gan Lywodraeth Cymru.
- Cytunwyd yn y gorffennol bod y cei yn adnodd bwysig i Aberdyfi yn enwedig ar gyfer cynnal busnesau, sefydliad y Bad Achub a.y.b.
- Bod Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas wedi ei benodi'n ddiweddar yn Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, ac y byddai o fudd cynnal trafodaeth gydag ef ynghylch unrhyw gymorth y gallasai awgrymu
- Nad oedd yn opsiwn i beidio adnewyddu wal y cei, neu fe fyddai'n disgyn i'r môr ond bod y llwybr i gyrraedd y nod yn anodd

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod ac edrychir ymlaen i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn ym mis Mawrth 2018.**

**(b) Bod y cynlluniau diwygiedig ac adroddiad diweddaraf ar gael yn Swyddfa'r Harbwr Feistr ar gyfer eu harchwilio ymhellach gan aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn ac Aelodau o'r cyhoedd.**

4.2 Eitem 4 (d) (ff) – Tir Comin / tir ystorfa, gwastraff

Adroddwyd bod y tir uchod yn parhau yn broblemus gyda'r cyhoedd yn gwaredu pob math o ysbwriel yn anghyfreithlon ar y tir, gan gynnwys oergelli, rhewgelli, asbestos a.y.b.

Eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod asbestos ar y tir sydd yn gorfod cael ei waredu gan arbenigwyr ac yn unol â chanllawiau llym. Nodwyd bod y Gwasanaeth wedi neilltuo oddeutu £10,000 wrth gefn ar gyfer y gwaith clirio gyda thua £8,000 yn ychwanegol ar gyfer gosod ffens bwrpasol fel bo neb yn gallu gwaredu ysbwriel neu gwneud unrhyw ddfnydd o'r tir heb ganiatad i'r dyfodol. Hyderir y bydd y safle wedi ei glirio erbyn dechrau mis Ebrill 2018. Erbyn diwedd yr haf mawr obeithir fe fydd llecyn taclus ar gael yn yr ardal i gadw cawelli ac offer pysgotwyr sydd yn gweithio yn rheolaidd allan o harbwr Aberdyfi. Roedd y Gwasanaeth mewn trafodaeth gyda chwmni gwaredu o Gaernarfon er ceisio amcan bris I waredu'r gwastraff.

Nododd cynrychiolydd y Clwb Hwylio bod ganddynt les ar gyfer rhan bach o'r tir ac y byddai'r Clwb yn fodlon cyfrannu yn ariannol ac yn ymarferol ar waredu'r gwastraff anghyfreithlon. Gofynwyd bod y cynrychiolydd yn cylch redeg copi o'r brydles I swyddogion ar y cyfle cyntaf

Nododd Aelod unwaith y bydd y tir wedi ei glirio, fe fydd yn adnodd gwerthfawr a diogel ar gyfer cadw celfi swyddogol ac mewn lleoliad delfrydol.

Pwysleisiodd y Swyddog Morwrol bod angen i bysgotwyr sicrhau fod eu holl eiddo, gan gynnwys offer pysgota o unrhyw fath, wedi ei storio mewn ffordd daclus. Fe fydd unrhyw offer sydd yn cael ei adnabod fel defnydd na fyddai wedi cael ei ddefnyddio neu ei gynnal a chadw ers amser yn cael ei waredu.

Awgrymodd Aelod y gellir canfod pwy sydd yn gwaredu'n anghyfreithlon drwy ymchwilio i'r rhifau cyfresol ar y deunyddiau.

Nodwyd fel mater o wybodaeth bod cwmni "Clarach Waste Services" ar gael yn Aberystwyth sydd yn cynnal gwasanaeth wythnosol i Dywyn ac efallai y byddai'n werth cysylltu â hwy am bris i waredu'r ysbwriel.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

5. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, Mr Barry Davies, yn diweddaru'r pwyllgor ar faterion rheolaethol yr Harbwr gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

(a) Atgoffwyd yr Aelodau bod angen cyflwyno cyfansoddiad a chofnodion blynyddol cyfredol y mudiadau / sefydliadau maent yn gynrychioli ar y Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr er mwyn sicrhau aelodaeth cymwys o'r Pwyllgor yn unol â phenderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd yn 2014. Rhestrwyd y mudiadau hynny nad oedd wedi anfon y dogfennau perthnasol fel a ganlyn:

- Pwyllgor Gwelliannau Aberdyfi
- Cymdeithas Pysgodfeydd Bae Ceredigion
- Clwb Cychod Aberdyfi
- Clwb Hwylio Dyfi
- Clwb Rhwyfo Aberdyfi

Deallir nad yw Partneriaeth Aberdyfi na Siambr Fasnach Aberdyfi yn bodoli mwyach.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a disgwylir i'r mudiadau uchod anfon y dogfennau perthnasol ymlaen i'r Swyddog Cefnogi Aelodau.**

(b) O safbwynt niferoedd angorfeydd yn yr Harbwr gwelwyd leihad o 1 o'i gymharu â 2016 gyda chynnydd yn y badau dŵr personol. Siomedig fu'r tywydd a oedd yn cael effaith ar yr harbyrau ar draws y Sir ond braf ydoedd nodi bod cychod o Gonwy wedi ymweld â harbwr Aberdyfi a hyderir y byddent yn ymweld eto i'r dyfodol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(c) **Cod Diogelwch Morwrol**

Derbyniwyd archwiliad gan Asiantaeth Gwylwyr y Glannau ac yn deillio o'u hadroddiad cyfeiriwyd at fân elfennau a oedd angen sylw yn Harbwr Aberdyfi megis tacluso o amgylch y cei gan fod nwyddau a rhaffau wedi eu cadw mewn ffordd a allasai achosi risg. Fe fydd yr archwilwyr yn ymweld a'r gwasanaeth ymhen blwyddyn a'r bwriad ydoedd gwahodd aelodau'r Pwyllgorau Harbwr i un cyfarfod canolog er mwyn derbyn gwybodaeth gan yr archwilwyr ynglyn â phrif materion y Cod Diogelwch. Rhagwelir bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ym Mhorthmadog.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Bod yr Outward Bound yn cydweithio'n dda gyda staff yr Harbwr o ran unrhyw weithgareddau
- Dymuniad i weld yr angorfeydd yn y mannau lle roeddynt oddeutu 15 mlynedd yn ôl
- O safbwynt diogelwch, gofynnwyd a oedd unrhyw broblem yn deillio o ddefnydd badau dŵr personol

Ymatebodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a'r Harbwr Feistr i'r uchod fel a ganlyn:

(i) Tra'n cydymdeimlo gyda'r Clwb Hwylio o safbwynt gofod iddynt yn yr aber yn sgil gosodiad yr angorfeydd, eglurwyd bod y sianel yn culhau a'r Harbwr Feistr yn ceisio ei orau i beidio cymryd gormod o le a gwerthfawrogir y cydweithrediad parod gan y Clwb Hwylio ar bob achlysur

(ii) Gwelwyd gwelliant o ran problemau gyda'r badau dŵr personol ac unwaith y derbynir trefniant cenedlaethol, fe ellir anfon neges allan i phob morwr

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(ch) Mordwyo**

Adroddwyd bod yr Harbwr Feistr yn gwneud ei orau i gadw'r cymhorthyddion ar safle a sicrhawyd y byddai Bwi Rhif 2 ar y safle cyn Gwyl Y Pasg.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(d) Cynnal a Chadw**

Amlinellodd yr Harbwr Feistr ei raglen waith dros gyfnod y gaeaf fel a ganlyn:

- Gwaith atgyweirio ym Mryn Llestair (Picnic Island)
- Gwaith ar Bwi y Fairway a Bwi Rhif 2
- Atgyweirio'r cwch
- Gwaith o hyn tan y Nadolig yn gosod pren i'r lanfa

Nododd y Swyddog Morwrol mai 6 cerbyd sydd gan y Gwasanaeth ond nad oedd 'run cerbyd yn Aberdyfi nac Abermaw. Mawr hyderir y bydd cerbyd ar gael cyn Nadolig ac un i Abermaw erbyn flwyddyn newydd. Roedd yr Harbwr Feistr wedi bod yn defnyddio ei gerbyd ei hun i glirio anifeiliad oddi ar y traeth megis defaid, llamhidyddion, a.yb.

O safbwynt y llwybr pren ar draws y llain golff, bod angen cysylltu â chyrff perthnasol am gyfraniadau ariannol i'w atgyweirio. Roedd y llwybr wedi bod ar gau ond hyderir y gellir gwneud gwaith ddechrau'r flwyddyn newydd.

Nododd y Cadeirydd ei bod yn anodd deall pam ei fod wedi cymryd cyhyd i gael cerbyd i Aberdyfi ac yn enwedig yr angen o'i ddefnydd ar dywydd garw. Ychwanegodd Aelod arall bod cyfrifoldebau'r Harbwr Feistr yn ymestyn cyn belled â Fairbourne ac roedd yn hanfodol iddo gael cerbyd i fedru ymgymryd â'i ddyletswyddau. Awgrymwyd y dylid dwyn y mater i sylw'r Aelod Cabinet Economi a phwysleisio'r ffaith bod gwir angen cerbyd ar gyfer yr Harbwr Feistr yn Aberdyfi.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(dd) **Materion Staff**

Adroddwyd bod y bartneriaeth gyda'r Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi yn gweithio'n wych a'r cyfnod cyflogaeth wedi ymestyn tan diwedd Rhagfyr.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol i ddiolch i'r Harbwr Feistr a'r staff am eu gwaith clodwiw.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(e) **Materion harbwr a thiroedd**

(i) Adroddwyd bod cawelli yn cael eu storio ar y cei a phwysleiswyd yr angen am gydweithrediad y pysgotwyr i'w cadw yn daclus er diogelwch y cyhoedd. Hyderir i'r dyfodol y gellir cael lle diogel ar y tir comin ar gyfer eu storio. Pwysleislwyd yr angen hefyd i'r defnyddwyr masnachol beidio parcio cerbydau ar ochr y cei am gyfnodau hir, eto oherwydd diogelwch risg i'r cyhoedd, heblaw ar gyfer llwytho a dad-lwytho nwyddau neu bysgod. Bydd yn rhaid i'r trefniadau newid yn 2018 ac efallai y gellir cael trefniant ar gyfer cael tocyn parcio iddynt i barcio yn y maes parcio.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd:

- bod cawelli ac offer pysgota yn nodweddol o Harbwr gweithiol
- pwysgirwydd i gael presenoldeb cynrychiolaeth o'r gymdeithas pysgotwyr i gyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn. Awgrymwyd i gysylltu â chynrychiolydd y Gymdeithas Pysgotwyr ar ran y Pwyllgor i ofyn a fyddai modd enwebu eilydd ymhlith y pysgotwyr lleol i fynychu ar ei ran pe byddai angen
- bod materion diogelwch yn hynod bwysig ac roedd nifer o gynlluniau dros y blynyddoedd wedi dwyn ffrwyth i geisio gwella diogelwch y cyhoedd, megis siacedi achub addas, a.y.b. Deallir bod Llywodraeth yr Alban yn cyflenwi siacedi achub am ddim a hyderir y bydd Llywodraeth Cymru yn dilyn yr un trywydd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a chysylltu â chynrychiolydd y Gymdeithas Pysgotwyr, ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol, i ganfod a fyddai modd ethol cynrychiolydd ymhlith y pysgotwyr lleol i fynychu'r Pwyllgor ar ei ran, ar achlysuron pan nad oedd yn medru mynychu'r cyfarfod.**

**(ii) Dŵr Ymdrochi**

Adroddwyd bod canlyniadau'r dŵr ymdrochi wedi gwella flwyddyn mewn cymhariaeth a flwyddyn diwethaf gyda Thraeth y Fynwent hefyd yn parhau i'w brofi gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(iii) Arwyddion Diogelwch**

Adroddwyd bod swyddogion y Gwasnaeth Morwrol wedi cynnal trafodaethau gyda Josh Cooper o Fudiad y Bad Achub, ynghyd â'r ddau aelod lleol. Roedd lleoliadau wedi eu cytuno ar gyfer gosod yr arwyddion diogelwch a hyderir y bydd adroddiad terfynol cyn y Nadolig gyda'r arwyddion yn eu lle erbyn 1 Ebrill 2018. O safbwynt arwyddion yn Abermaw, hyderir y bydd yr arwyddion yn eu lle erbyn Awst.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglyn â phostyn sydd yn dal y bwi achub yn Harbwr Penhelyg, cadarnhaodd yr Harbwr Feistr y byddai'n cael ei adnewyddu.

Nododd cynrychiolydd y Bad Achub eu bod yn gwneud cyhoeddiadau o beryglon y môr a nodwyd bwysigrwydd i osod arwyddion rhwng Tywyn ac Aberdyfi yn enwedig i godi ymwyddiaeth o lanw terfol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(f) **Materion Ariannol**

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr Aelodau drwy'r fantolen ariannol gan nodi fel a ganlyn:

- bod tanwariant o £3,264 yng nghostau staff
- bod tanwariant o £11,640 yng nghostau tiroedd ac eiddo
- bod gorwariant o £32 yng nghostau cwch a cherbydau
- bod gorwariant o £1,296 yng nghostau offer a chelfi
- bod targed yr incwm yn fyr o £5,594

Ar gyfer diwedd Medi 2017 nodwyd bod yr incwm yn fyr o £2,283.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(ff) **Ffioedd a thaliadau 2017/18**

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddir yn cynyddu'r ffioedd 2% ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18 er cwrdd â her gyllideb a tharged incwm y gwasanaeth.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(g) **Digwyddiadau**

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig mai braf ydoedd gweld cymaint o weithgareddau amrywiol yn yr gymuned. Cyfeiriwyd yn benodol at daith ar fadau dŵr personol o Morfa Bychan i Aberdyfi yn ystod yr haf a chanmolwyd y trefniadau ar y diwrnod. Hyderir y bydd y gweithgaredau yn parhau ac yn cael eu cynnal eto flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, nodwyd bod angen adolygu'r gweithgareddau fel rhan o'r Dyfi Fest yn benodol elfennau iechyd a diogelwch a gynhaliwyd ar y cei (castell neidio). Pe bydd y Dyfi Fest yn cael ei gynnal flwyddyn nesaf, awgrymyd efallai y gall gweithredwr y castell neidio gael cyflenwad trydan o'r Harbwr yn hytrach na defnyddio generadur.

Mewn ymateb i gais ar gyfer ail-leoli yr orsaf dywydd gan ei fod wedi ei leoli yn y man anghywir ar y cei, awgrymodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i Mr Des George drafod a chytuno lleoliad addas gyda'r Harbwr Feistr ar y cyfle cyntaf.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**6. UNRHYW FATER ARALL**

**(a) Bryn Llestair (Picnic Island)**

Mynegodd y Cadeirydd bryder ynglyn â chyflwyr y bont sydd yn mynd drosodd i Fryn Llestair a rhaid bod yn barod ar gyfer adnewyddu'r bont. Deallir bod cwmni Network Rail yn ymwybodol o gyflwr y bont ac y byddai'n gyfle i ofyn i'r cwmni os byddent yn fodlon cyfrannu tuag at gostau o'i hadnewyddu. 'Roedd y Cadeirydd ynghyd â'r Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn bwriadu mynychu cyd-gyfarfod o Bwyllgor Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth a Phwyllgor Rheilffordd Arfordir y Cambrian a oedd i'w gynnal ar 24 Tachwedd 2017 ac y byddent yn fwy na pharod i godi'r mater yn y fan honno.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y gwasanaeth wedi archwilio'r bont ac yn gweld ei phwysigrwydd i'r gymuned. Trafodwyd y mater o gyfraniad

ariannol gan yr Outward Bound oddeutu 3 blynedd yn ol. Cyflwynwyd cais am gyfalaf i'r Cyngor a hyderir y gellir ymdrin â'r mater flwyddyn yma.

Ychwanegodd yr Harbwr Feistr ei bod yn anodd gweithio ar y bont oherwydd bod y rheilffordd yn fyw a'r angen, o safbwynt diogelwch, i gael archwilwyr pob pen i'r rheilffordd ar gost o oddeutu £2,000 y tro.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyflwyno diweddariad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol.**

**(b) Symud Tywod**

Mewn ymateb i ymholiad â chlirio tywod, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod wedi ei raglennu ar gyfer mis Mawrth.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**7. ETHOL SYLWEDYDDION**

**Penderfynwyd: Ethol Mr Dave Williams fel sylwedydd i gynrychioli Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar yr isod:**

- **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw**
- **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog**
- **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli**

**8. <u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>**

**Penderfynwyd: Nodi y cynhelir nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ar 22 Mawrth 2018.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 12.20 p.m.

**CADEIRYDD.**